# Crynodeb o Arfarniad a Chynllun Datblygu Ysgol Bro Cinmeirch

Fel ysgol rydym yn adolygu ' n gyson ble ' r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella ' n barhaus i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg orau yn Ysgol Bro Cinmeirch. Trwy ' r broses o hunan arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.



## Ein Cryfderau

### Arweinyddiaeth

- Mae blaenoriaethau a gweledigaeth yr ysgol yn cael ei rannu'n effeithiol gyda ' n holl rhanddeiliaid.
- Mae'r amgylchedd dysgu yn arwain disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a pharchus sy'n barod i lwyddo.
- Mae staff a llywodraethwyr yn cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol.
- Mae'r staff sy'n ymroi'n llwyr i werthoedd yr ysgol ac yn hybu lles yn llwyddiannus.

### Cwricwlwm

- Rydym yn cynnig ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ysgogi disgyblion.
- Rydym yn ceisio darparu cwricwlwm diddorol a pherthnasol sy'n datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion.
- Mae pwyslais cryf o fewn yr ysgol yn cael ei roi i ddatblygu ymwybyddiaeth o natur unigryw'r ardal leol a thraddodiadau Cymru.
- Rydym yn hybu balchder y disgyblion yn yr iaith Gymraeg a'u Cymreictod.

### Addysgu a dysgu

- Mae'r staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu a dysgu pwrpasol gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n unigol, fesul pâr ac mewn grwpiau.
- Rydym yn ennyn diddordeb ac ymrwymiad y disgyblion drwy"r defnydd o'r ardaloedd dysgu mewnol ac allanol i gyfoethogi'r cwricwlwm.
- Rydym yn cynnig adborth llafar i'r disgyblion fel arweiniad iddynt wella eu gwaith ac i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu.
- Rydym yn gofyn i'r disgyblion gyfrannu eu syniadau ar yr hyn maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu.

### Lles, Tegwch a Chynhwysiant

- Rydym yn adnabod disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn gynnar ac yn manteisio'n llawn ar gefnogaeth asiantaethau allanol i gefnogi'r disgyblion hyn.
- Mae'r Lleisiau Lles a staff yr ysgol yn meddwl am syniadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn hapus, yn ddiogel ac mewn awyrgylch cynhwysol a chroesawgar.
- Mae lles disgyblion a'r staff yn ganolog i weledigaeth yr ysgol.
- Rydym yn annog y disgyblion i gyfrannu eu syniadau ac maent yn dylanwadu'n sylweddol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

## Llwyddiant Blaenorol

### Datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr.

Pennwyd artist y mis ac mae'r cyngor 'Criw Cymraeg' yn cael dewis artistiaid amrywiol. Mae cyfleoedd i wrando ar gerddoriaeth yn aml yn yr ysgol.

Pennwyd rhaglen deledu'r mis ac mae'r 'Criw Cymraeg' yn cael dewis rhaglen ar gyfer y plant iau ac un mwy addas ar gyfer y rhai hyn. Mae'r ddogfen yn cael ei rannu yn ein cylchlythyr a chyfle i wrando ar y rhaglen yn y clwb brecwast.

### Gwella hyfedredd darllen y Gymraeg.

Wedi buddsoddi mewn llyfrau Cymraeg newydd e.e Magi Ann, Tric a Chlic, Cychwyn Eto ayyb. Mae hyn yn sicrhau pontio llyfn rhwng blwyddyn 2 a 3.

Wedi buddsoddi i 'Darllen Co' - cyfle i ddarllen llyfrau am ddim adref.

Parth Pleidleisio ym mlwyddyn 1-6 er mwyn annog mwy o ddisgyblion i ddarllen nofelau amrywiol.

### Gwella ymhellach y ddarpariaeth a datblygu diwylliant o ddysgu annibynnol.

Gwreiddio '3 cyn fi' ym mhob dosbarth a'r '5 M' ym mlwyddyn 5 a 6 i hybu annibyniaeth.

Ardaloedd dysgu yn y Dysgwyr Sylfaen a heriau prynhawn yng nghyfnod allweddol 2. Heriau 'chilies' yn yr ardaloedd a chyfle iddynt ddewis eu her.

Cynghorau Ysgol yn gyfrifol am faterion a digwyddiadau penodol o fewn yr ysgol.

# Blaenoriaethau
## Ysgol Bro Cinmeirch

Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2025-2026 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gorau i'n disgyblion.

## 1

### Gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion.


- Gweithredu disgwyliadau a chanllawiau llawysgrifen gyson.



## 2

### Cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr fedru cymhwyso a defnyddio medrau rhif a hyfedredd mathemategol yn llwyddiannus ac yn effeithiol yn drawsgwricwlaidd.

- Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion defnyddio a datblygu eu sgiliau mathemategol yn drawsgwricwlaidd.




## 3

### Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu medrau eu gallu.

- Asesu anghenion dysgu disgyblion: Gwneud asesiadau rheolaidd i ddeall anghenion unigol pob disgybl a'r meysydd lle gellir cynnig her ychwanegol.



## 4

### Sicrhau fod prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn canolbwyntio ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a medrau disgyblion.

- Cydweithio ac ysgolion eraill er mwyn creu cynllun monitro sy'n edrych ar gynnydd a medrau disgyblion er mwyn sicrhau lefel her briodol.

